TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 25 Ionawr 2022

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

# Atebion i'ch Cwestiynau

**a) Pam fod Lein y Ddinas wedi cael ei newid i redeg o Coryton i Fae Caerdydd – penderfyniad truenus a wnaed heb ymgynghori, i bob golwg? Mae hyn wedi arwain at wasanaeth llawer salach sy'n ei gwneud yn llawer anoddach cysylltu â threnau o orsaf Caerdydd Canolog. Os caf fentro dweud yr hyn sy'n amlwg, nid yw hyn yn cymell pobl i ddefnyddio'r trên o gwbl, ac mae'n benderfyniad gwrthnysig iawn.**

Gwnaed y newid hwn oherwydd cyfyngiadau capasiti yng Ngorsaf Caerdydd Heol y Frenhines wrth i'r gwaith barhau ar Bont Stryd Adam. Nid yw'r newid hwn yn barhaol.

**b) Pam gafodd pob trên ei ganslo ddoe o Rhiwbeina i orsaf Caerdydd Canolog (4 Rhagfyr). A fyddech cystal â rhoi ateb penodol, nid esboniad cyffredinol fel yn rhai o'ch cyfathrebiadau cyhoeddus ynghylch y mater hwn ar Twitter ddoe.**

Ar y diwrnod o dan sylw, cafodd yr holl wasanaethau ar gangen Coryton eu 'canslo ymlaen llaw' yn hytrach na'u canslo. Yn ôl y diffiniad, mae gwasanaeth sydd wedi cael ei 'ganslo ymlaen llaw' yn cael ei ganslo cyn 10pm y diwrnod cyn gweithredu ac, o'r herwydd, nid yw'n cael ei gynnwys fel un o'r gwasanaethau a nodir yn ein 'Cynllun y Dydd'. Mae hon yn safon ar gyfer y diwydiant cyfan. Ar yr achlysur hwn, cafodd gwasanaethau cangen Coryton eu canslo ymlaen llaw o ganlyniad i brinder giardiau. Yn anffodus, roedd prinder staff a oedd yn gysylltiedig â COVID wedi cael effaith ddifrifol ar wasanaethau ym mis Rhagfyr, gan arwain yn y pen draw at weithredu amserlen frys ar 22 Rhagfyr.

**c) A fyddech cystal â nodi cyfanswm y trenau a gafodd eu canslo ar lein y Ddinas yn ystod 2021 (1 Ionawr-4 Rhagfyr). Dylid trin yr elfen hon o'm cais fel cais Rhyddid Gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.**

Gwasanaethau a Ganslwyd ar Lein y Ddinas - 2021

| **Mis** | **Wedi Canslo'n Llwyr** | **Wedi Canslo'n Rhannol** |
|---|---|---|
| Ionawr | 8 | 3 |
| Chwefror | 1 | 12 |
| Mawrth | 0 | 0 |
| Ebrill | 4 | 4 |
| Mai | 5 | 8 |
| Mehefin | 16 | 2 |
| Gorffennaf | 2 | 6 |
| Awst | 2 | 1 |
| Medi | 22 | 5 |
| Hydref | 56 | 3 |
| Tachwedd | 105 | 9 |
| Rhagfyr | 53 | 1 |

d) **A fyddech cystal â nodi faint o drenau a gofrestrwyd yn hwyr yn cyrraedd Rhiwbeina neu o Rhiwbeina ar Lein y Ddinas yn ystod 2021 (1 Ionawr - 4 Rhagfyr). Unwaith eto, dylech drin y cais hwn fel cais Rhyddid Gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.**

Network Rail sy'n gyfrifol am gofnodi'r data hyn, er nad yw'n casglu data ar gyfer pob gorsaf ar draws ein rhwydwaith. Er bod TrC yn gallu cael gafael ar y data hyn a'u darparu pan fyddant ar gael, nid yw Network Rail yn casglu'r wybodaeth hon ar gyfer Rhiwbeina. Felly, nid yw'r wybodaeth hon gennym ac nid ydym yn gallu ei darparu.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".